**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR - DYDD IAU, 19 RHAGFYR 2019 DYDD IAU, 19 RHAGFYR 2019**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: M. MOORE (CADEIRYDD)

Councillors
D. Bevan
G. Collier
J. Collins
M. Cook
M. Cross
N. Daniels
D. Davies
G. A. Davies
G. L. Davies
P. Edwards
D. Hancock
K. Hayden
S. Healy
J. Hill
W. Hodgins
M. Holland
J. Holt (Is-gadeirydd)
H. McCarthy
C. Meredith
J. Millard
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
G. Paulsen
K. Pritchard
K. Rowson
T. Sharrem
T. Smith
B. Summers
S. Thomas

H. Trollope
J. Wilkins
D. Wilkshire
B. Willis

WITH:

| |
|---|
| Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg |
| Prif Swyddog Adnoddau |
| Prif Swyddog Masnachol |
| Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol |
| Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol |
| Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:<br><br>Cynghorwyr P. Baldwin, M. Day, L. Elias, J. Mason, B. Thomas, G. Thomas a L. Winnett. | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiadau buddiant dilynol:<br><br>**Cynghorwyr M. Cook a J. Hill -** Eitem Rhif 4: Costau Refeniw Gweithredu Ail Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi (HWRC) ym Mharc Busnes De Roseheyworth.<br><br>Cadarnhaodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a | |

| | | |
|---|---|---|
| | Chorfforaethol y cafodd yr Aelodau a enwir uchod eu cynghori y gallant aros yn y cyfarfod a chymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth a all ddilyn yng nghyswllt yr eitem hon. | |
| **No. 4** | **COSTAU REFENIW GWEITHREDU AIL GANOLFAN AILGYLCHU GWASTRAFF CARTREFI (HWRC) YM MHARC BUSNES DE ROSEHEYWORTH**<br><br>Datganodd y Cynghorwyr M. Cook a J. Hill fuddiant yn yr eitem hon ac yn dilyn y cyngor gan y Swyddog Monitro, arhosodd yn y cyfarfod tra bod yr eitem yn cael ei thrafod.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Siaradodd Aelod Gweithredol yr Amgylchedd yn gryno am yr adroddiad a gyflwynwyd i ystyried opsiynau ar gyfer:<br><br>- dyddiau gweithredu Cwm Newydd a'r ail Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi (HWRC) a gynigir ar gyfer Roseheyworth; a<br><br>- goblygiadau ariannol gweithredu ail ganolfan gwastraff cartrefi.<br><br>Ar y pwynt hwn dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod datblygu ail HWRC yn gydnaws gyda blaenoriaeth y Cyngor 'Cymunedau Cryf ac Amgylcheddol Graff' ac yn neilltuol yr amcan i 'gynyddu'r cyfraddau ailgylchu a fyddai'n ein galluogi i gyflawni targedau cenedlaethol'. Nodwyd y byddai'r HWRC newydd yn cyfrannu at gyflawni targed ailgylchu 70% a osodwyd gan Lywodraeth Cymru erbyn 2024/2025.<br><br>Mae WRAP (Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau) wedi gweithio'n agos gyda Blaenau Gwent i ddatblygu achos busnes strategol ar gyfer safle yr HWRC newydd arfaethedig yn Roseheyworth sy'n rhoi manylion sut y gall drin heriau lleol tra'n ymateb i nodau statudol.<br><br>Nodwyd y bu'r Cyngor yn llwyddiannus yn ei gais am gyllid cyfalaf i Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun gyda'r dyfarniad llawn o £2.8m ar gael ar gyfer y cyfleuster. Byddai'r datblygiad arfaethedig hefyd yn arwain at welliannau priffyrdd drwy wella'r A467 gyda goleuadau traffig ar y fynedfa i Faes Busnes Roseheyworth a | |

byddai'r safle newydd hefyd yn rhoi capasiti i ail-gyflwyno eitemau cartref gyda mynediad i gelfi ac eitemau ar gyfer y gymuned. Byddai'r prosiect ailddefnyddio hwn yn rhoi cyfle i weithio gyda phartneriaid trydydd sector a allai gael mynediad gynlluniau cyllid i wella cyflogadwyedd a rhaglenni gwaith yn y Fwrdeistref.

**Costau Refeniw -** yng nghyswllt costau refeniw, dywedwyd y byddai'r costau hyn ar gyfer blwyddyn 1 o bosibl yn is oherwydd na fyddai'r cyfleuster newydd yn gweithredu'n llawn tan 1 Mehefin 2020. Felly, cafodd costau refeniw ar gyfer 2020/2021 eu modelu ar 10 mis.

Mae paragraff 3.4.1 yn rhoi manylion opsiynau ar gyfer cyllido costau gweithredol HWRC sy'n cynnwys:

- Effeithiolrwydd Gwasanaeth - £39,000 – bu nifer o ddatganiadau diddordeb ar gyfer dileu swyddi gwirfoddol o fewn Gwasanaethau Cymdogaeth. Cynhelid adolygiad llawn i wneud un arbediad gwasanaeth yn y swm o £39,000.

- Un Criw Glanhau Strydoedd - £95,400 - disgwylid y byddai agor HWRC newydd yn cael effaith gadarnhaol yng Nghwm Ebwy Fach, a fyddai'n galluogi'r adran i ostwng un criw Glanhau Strydoedd a symud y staff hynny o fewn gweithrediad y safle newydd.

- Dadansoddiad Sensitifrwydd - dau safle gweithredol - £108,000 - ymarferiad modelu yn seiliedig ar strategaeth dau safle gan WRAP sy'n dangos peth cynnydd potensial mewn perfformiad - caiff yr wybodaeth ei meintioli ym mharagraff 3.4.1. yr adroddiad.

**Dyddiau Gweithredu -** rhoddwyd cymhariaeth o'r dyddiau gweithredu gydag awdurdodau cyfagos ym mharagraff 3 yr adroddiad. Cafodd tri opsiwn ar gyfer ystyriaeth eu cynnwys gydag Opsiwn 2 yr opsiwn a ffafrir h.y. HWRC Roseheyworth a Cwm Newydd yn ddau yn gweithredu am 6 diwrnod yr wythnos. Byddai'r ddau safle ar gau ar wahanol ddyddiau gan sicrhau y byddai'r cyfleusterau ar gael bob dydd yn ystod yr wythnos.

**Effaith Tymor Byr a Thymor Hir a Goblygiadau ar y Gyllideb/Risgiau yn cynnwys Camau Lliniaru -** mae paragraff 5 yr adroddiad yn rhoi manylion goblygiadau'r gyllideb a risgiau yn cynnwys camau lliniaru. Cafodd y costau refeniw mynegol 10-mis

| | | |
|---|---|---|
| | ar y safle newydd eu modelu ar £258,680 ar draws pob diwrnod gweithredu rhwng 8.30 a.m a 5.30 p.m.<br><br>Byddai'r strategaeth dau safle yn galluogi'r Cyngor i ddod yn nes at gyflawni targed ailgylchu 70% Llywodraeth Cymru gan y gallai methiant i ehangu a thyfu'r gwasanaeth Gwastraff olygu bod cyfradd ailgylchu'r Cyngor yn sefyll yn ei hunfan ac arwain at ddirwyon posibl yn 2024/2025 a thu hwnt. Felly, byddai gweithredu'r safle newydd yn helpu i liniaru dirwyon y dyfodol a rhoi gwell mynediad i breswylwyr i ailgylchu deunyddiau a gostwng tipio anghyfreithlon o fewn Cwm Ebwy Fach.<br><br>Er mwyn lliniaru'r gostyngiad staff (h.y. un aelod o staff) mewn Gwasanaethau Cymdogaeth, byddid yn datblygu cynllun prentisiaeth i adeiladu cydnerthedd hirdymor o fewn y tîm. Yn ychwanegol, er mwyn parhau i gyrraedd a chyflawni amcanion glanweithdra y Cyngor o fewn y fwrdeistref, byddid yn dal i gadw a defnyddio Tîm Glanhau ym mhob un o'r cymoedd. Cafodd cyllid ychwanegol hefyd ei sicrhau drwy Cadw Cymru'n Daclus i gynyddu nifer yr hyrwyddwyr gwirfoddol casglu sbwriel.<br><br>Cafodd aelodau wedyn gyfle i roi sylw/gofyn cwestiynau am yr adroddiad.<br><br>**Craffu -** gofynnodd Arweinydd y Grŵp Llafur am eglurhad pam na ddaethpwyd â'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu perthnasol i gael ei ystyried.<br><br>Esboniodd Arweinydd y Cyngor, pe byddid wedi cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu, y byddai wedyn bod yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Gweithredol i wneud y penderfyniad ar y mater oherwydd dan y trefniadau democrataidd nid oedd yr adroddiad yn ei ffurf bresennol yn fater i'r Cyngor ei ystyried. Yn ychwanegol, yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Hydref cafodd materion am yr HWRC eu trafod fel rhan o'r adroddiad Rhaglen Cyfalaf lle roedd Aelodau wedi mynegi pryder am y trefniadau gweithredu/goblygiadau refeniw ar gyfer y safle a gwnaed ymrwymiad y cyflwynir adroddiad pellach i'r Cyngor pe byddai'r cais am gyllid wedi bod yn llwyddiannus.<br><br>Aeth Arweinydd y Cyngor ymlaen drwy ddweud ei fod wedi trafod y mater gyda'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a roedd y ddau wedi cadarnhau eu bod yn fodlon gyda'r dull ar gyfer cyflwyno'r adroddiad yn | |

uniongyrchol i'r Cyngor ei ystyried. Yn ychwanegol, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol wedi cadarnhau na fyddid wedi galw cyfarfod o'r Cydbwyllgor Craffu i ystyried y mater.

Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at yr achos amlinellol strategol ar gyfer datblygu ail HWRC a dywedodd y byddai wedi bod yn well ganddo i'r ddogfen gael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w hystyried oherwydd i'r penderfyniad gweithredol gael ei wneud gan leiafrif (h.y. y Pwyllgor Gweithredol), sydd yn ei farn ef i'w resynu. Cyfeiriodd hefyd at y datganiad a wnaed y bu'r penderfyniad o fath gwleidyddol.

Cyfeiriwyd at yr adroddiad blaenorol sy'n rhoi manylion trefniadau agor posibl yn seiliedig ar y dull gweithredu 3 a 4 diwrnod a fu yn ei farn ef yn hurt a dywedodd ei fod yn falch y cafodd y cynigion hyn eu dileu erbyn hyn. Fodd bynnag, dywedodd nad oedd Llywodraeth Cymru yn gwybod am y cynnig gwreiddiol hwn.

Aeth Arweinydd y Grŵp Llafur ymlaen drwy gyfeirio at pa mor gyflym y daeth y cynnig i ffrwyth cyn cyfnod y Nadolig ond dywedodd nad oedd yr holl broses drosodd i Aelodau. Byddid yn hysbysu Swyddfa Archwilio Cymru am hyn oherwydd ei fod yn rhan o newid polisi mwy ac y dylai felly fod wedi dod gerbron holl Aelodau'r Cyngor. Felly, ni fedrai gefnogi'r cynnig gan nad oedd Aelodau wedi cael cyfle i roi unrhyw fewnbwn iddo a hefyd oherwydd nad oes sôn unrhyw le o fewn yr adroddiad am fanylion i gynyddu'r gyfradd ailgylchu.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur mai mantra y weinyddiaeth bresennol fu gwelliannau glanhau strydoedd i gyflawni blaenoriaethau maniffesto ond eu bod yn awr yn torri eu gair. Aeth ymlaen drwy gyfeirio at yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Gorffennaf 2017 am welliannau glanhau strydoedd a chyflwyno pumed criw glanhau a gafodd effaith fawr ar ansawdd yr amgylchedd a dywedodd bod aelodau'r cyhoedd yn bryderus am lanweithdra'r strydoedd. Felly, ategodd na fedrai gefnogi'r cynnig oherwydd y byddai angen i Aelodau gael gwybod am y goblygiadau os oes gostyngiad mewn un criw glanhau strydoedd a hefyd yr effaith y byddai'r HWRC newydd yn ei gael ar flaenoriaethau eraill y Cyngor.

Aeth ymlaen drwy hefyd gyfeirio at nifer y cynlluniau sy'n mynd rhagddynt yn ardal Abertyleri a dweud bod yr HWRC newydd yn

'degan newydd sgleiniog'.

Daeth Arweinydd y Grŵp Llafur i ben drwy ddweud na fedrai gefnogi'r cynnig ac felly cynigiodd yr argymhelliad dilynol yn lle.

Gohirio'r adroddiad i ganiatáu i weithgor o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol lunio darn o waith i benderfynu ar y dilynol yn y modd gorau:

1. Os oes achos digon cryf o fewn yr adroddiad i sicrhau, os cytunir, y byddai cynnydd digonol yn y ganran gyfradd ailgylchu; a

2. P'un ai yw Aelodau'n teimlo fod rhagoriaethau yr uchod drwyddi draw yn werth colli criw glanhau strydoedd a'r gostyngiad anochel mewn glanweithdra strydoedd, fel manylir yn yr adroddiad yn adran 3.4.1.

Yna byddai'r gweithgor yn rhoi adroddiad o'u canfyddiadau i sesiwn o holl aelodau craffu a fyddai, ar ôl ei ystyried, yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gweithredol/Cyngor.

Dechreuodd Arweinydd y Cyngor drwy gyfeirio at yr iaith anffodus a ddefnyddiwyd yn yr anerchiad agoriadol a dywedodd na fedrai ddeall yr hyn a ddywedwyd yng nghyswllt y prosiectau sy'n mynd rhagddynt yn Abertyleri. Soniodd y byddai angen i adroddiadau sydd angen mewnbwn gan bob Cynghorydd i'w trafod gael eu cyflwyno i'r Cyngor er mwyn ymestyn y cyfle ar gyfer trafodaeth o fewn y Siambr.

Aeth yn ei flaen drwy gyfeirio at Arweinydd y Grŵp Llafur yn cyfeirio at golli pumed criw glanhau strydoedd a dywedodd iddo o ddechrau ail gylch y gyllideb iddo wneud ei orau i dorri'r pumed criw a gostwng glanhau strydoedd gan £300,000. Mae glanweithdra strydoedd yn gwella ond dywedodd, pe byddai cynigion y Grŵp Llafur wedi eu cymeradwyo, y byddai strydoedd bellach yn sylweddol mwy brwnt.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at ganlyniadau'r arolwg cyhoeddus a gynhaliwyd ledled y Fwrdeistref Sirol ddwywaith y flwyddyn, sy'n dangos fod glanhau strydoedd yn gwella. Os yw Arweinydd y Grŵp Llafur yn bryderus am golli pumed criw glanhau a'r effaith niweidiol y gall hyn ei gael drwy agor HWRC, sy'n gyfleuster y mae angen mawr amdano, ac os oes unrhyw effaith niweidiol ar lanhau

strydoedd fel canlyniad i golled y pumed criw glanhau, dywedodd y byddai'n fodlon dychwelyd i'r Cyngor ac argymell ailosod y criw.

Yna cafodd y cwestiynau/sylwadau dilynol eu codi gan Aelodau:

**Amserau Gweithredu Arfaethedig -** dechreuodd Aelod drwy ddweud ei fod yn falch y cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor ei ystyried. Aeth ymlaen drwy sôn am yr amserau agor gweithredol arfaethedig o 8.30 a.m. - 5.30 pm. a gofynnodd os y byddai cyfleusterau priodol ar gael yn y safle newydd a hefyd y safle presennol i sicrhau y cydymffurfir gyda'r amserau agor hyn drwy gydol y flwyddyn yn neilltuol yn ystod misoedd y gaeaf.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cymdogaeth y byddai llifoleuadau ar gael yn y ddau safle i sicrhau y gall preswylwyr gael mynediad i'r ddau gyfleuster ar ôl 4.00 p.m., yn arbennig yn ystod misoedd y gaeaf.

**Costau Cyfleustodau -** cyfeiriodd Aelod at gost gynyddol trydan flwyddyn ar flwyddyn. Er y rhoddwyd manylion costau gweithredu'r flwyddyn gyntaf, gofynnodd beth fyddai'r goblygiadau ariannol ar gyfer gosod y gyllideb ym mlynyddoedd y dyfodol.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod atodiad 3 yr adroddiad yn rhoi manylion yr amcangyfrif o gostau refeniw am gyfnod 5 mlynedd. Cafodd yr wybodaeth hon ei modelu ar y costau chwyddiant safonol.

**Safle Cwm Newydd/Cwm Tawel -** dechreuodd Aelod arall drwy ddweud ei fod o blaid amgylchedd gwyrddach a gostwng ôl-troed carbon. Dywedodd y cynhelir adolygiad ar hyn o bryd yng nghyswllt Cwm Tawel a holodd os y dylid cwblhau hyn cyn gwneud penderfyniad ar yr HWRC newydd. Mynegodd ei bryder hefyd am ddyfodol safle Cwm Newydd (sy'n cynnwys dau-draean y fwrdeistref) a'r goblygiadau i'r gyllideb yn y dyfodol a gofynnodd os y gellid rhoi gwarant y byddai'r safle hwn yn parhau ar agor.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod Strategaeth Ailgylchu y Cyngor a chyflawni'r targed ailgylchu 70% wedi ei seilio ar ddull dau safle ac y byddai angen cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer unrhyw newidiadau yn y strategaeth hon. O safbwynt gweithredol, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol nad oedd unrhyw gynigion i newid gan y credir fod angen dwy safle i gyflawni'r

| | | |
|---|---|---|
| | targedau ailgylchu. Nodwyd mai dim ond ychydig o fudd a gyflawnid wrth i'r Cyngor ddod yn nes at gyflawni'r targed o 70%.<br><br>Yng nghyswllt y darparydd gwasanaeth a chwestiwn pwy fyddai'n gweithredu'r ddau safle, nid oedd hwn yn fater i'w ystyried ar hyn o bryd - nid oedd y ddau fater wedi eu cydgysylltu ar y cam hwn.<br><br>**Ôltroed Carbon -** cyfeiriodd Aelod at y sylw blaenorol a wnaed am yr ôl-troed carbon a dywedodd fod y pellter o ben pellaf y Fwrdeistref Sirol i safle Cwm Newydd yn 5 milltir ar hyn o bryd. Pan fyddai'r safle newydd yn dod yn weithredol, yn ogystal â gostwng yr ôl-troed carbon ar gyfer preswylwyr Cwm Ebwy Fach, byddai hefyd yn sicrhau incwm ychwanegol o ddeunydd ailgylchu a gallai hyn ynghyd â chyfanswm cost casglu tipio anghyfreithlon o bosibl wrthbwyso cost gweithredol yr HWRC newydd.<br><br>Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at gyllid Llywodraeth Cymru a dywedodd fod rhai cwestiynau p'un ai a fu'r Cyngor yn agored a thryloyw o ran y dull cynnig gwreiddiol ar gyfer y dyddiau gweithredu h.y. 3-4 diwrnod.<br><br>**Tipio Anghyfreithlon -** mynegodd Aelod ei bryder fod tipio anghyfreithlon yn broblem ar draws y Fwrdeistref Sirol ac mai mynydd Hilltop oedd un o'r prif fannau problem. Cyfeiriodd hefyd at yr adolygiad o Cwm Tawel sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd a dywedodd y credai y dylid derbyn canfyddiadau'r adolygiad hwnnw i ddechrau cyn gwneud penderfyniad yng nghyswllt yr HWRC newydd.<br><br>Ategodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol ei sylw blaenorol nad oedd ar hyn o bryd y cwestiwn am bwy oedd yn gweithredu'r safleoedd yn gosod nifer y safleoedd HWRC. Mae angen manylion y seilwaith yn gyntaf ac yna penderfynir ar weithredwyr y safle yn y dyfodol.<br><br>**Ymgysylltu â'r Cyhoedd -** Cyfeiriodd Aelod at faint o ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n digwydd a'i fod yn optimistig fod y cyhoedd yn coleddu'r angen am ailgylchu.<br>Ar y pwynt hwn, cynigiodd Aelod Gweithredol yr Amgylchedd y dylid cymeradwyo Opsiwn 2.<br><br>Cynigiodd Arweinydd y Grŵp Llafur y gwelliant dilynol:<br><br>**Gohirio'r adroddiad i alluogi Gweithgor o'r Pwyllgor Craffu** | |

**Gwasanaethau Cymunedol i lunio darn o waith i benderfynu'r dilynol yn y ffordd orau:**

1. **Os caiff achos digon cryf ei wneud yn yr adroddiad i sicrhau y byddai cynnydd digonol yng nghanran y gyfradd ailgylchu; a**

2. **P'un ai yw Aelodau'n teimlo fod rhagoriaethau'r uchod drwyddi draw yn werth colli criw glanhau strydoedd a'r gostyngiad anochel mewn glanweithdra strydoedd, fel yr amlinellir yn yr adroddiad yn adran 3.4.1**.

**Byddai'r Gweithgor wedyn yn rhoi adroddiad ar eu canfyddiadau i sesiwn pob aelod o'r Pwyllgor Craffu a fyddai, ar ôl, ystyriaeth, yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gweithredol/Cyngor.**

Gofynnwyd am a chafwyd pleidlais wedi'i chofnodi:

**O blaid y gwelliant a amlinellir uchod:**

**Cynghorwyr D. Bevan, M. Cross, K. Hayden, H. McCarthy, J. C. Morgan, T. Sharrem, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, B. Willis.**

**O blaid Opsiwn 2 (yr opsiwn a ffafrir) – Cynghorwyr G. Collier, J. Collins, M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G. L. Davies, D. Hancock, S. Healy, J. Hill, W. Hodgins, M. Holland, J. Holt, C. Meredith, M. Moore, J. P. Morgan, L. Parsons, G. Paulsen, K. Pritchard, K. Rowson, B. Summers, J. Wilkins.**

**Ymatalodd y Cynghorwyr P. Edwards a J. Millard rhag pleidleisio.**

Felly ni chafodd y gwelliant a gynigiwyd ei gario.

Gadawodd y Cynghorydd J. C. Morgan y cyfarfod ar y pwynt hwn.

Diolchwyd i gynrychiolwyr WRAP (Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau) a'r swyddogion am y gwaith mawr a wnaed yng nghyswllt y cynllun ac i Lywodraeth Cymru am ddarparu cyllid.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod i dderbyn yr adroddiad

| | | |
|---|---|---|
| | a chymeradwyo Opsiwn 2, sef bod HWRC Roseheyworth a New Vale yn agor am 6 diwrnod yr wythnos, a bod y drafft amcangyfrif refeniw i weithredu'r safle arfaethedig newydd yn 2020/21 yn £204,530. | |
| **No. 5** | **<u>EITEM(AU) EITHREDIG</u>**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiad dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitem eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (roedd y rheswm am y penderfyniad am yr eithriad ar gael ar restr a gedwir gan y swyddog priodol). | |
| **No. 6** | **<u>PROSES DROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNOL, DETHOL DEFNYDDIWR CYMERADWY</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD y dylai'r cyhoedd gael ei eithrio pan gynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debyg y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Esboniodd Aelod Gweithredol yr Amgylchedd fod yr adroddiad yn nodi canlyniad yr ail-asesiad o'r wybodaeth gan y Panel Dethol a roddwyd i gefnogi apêl a gyflwynwyd i'r cynnig i Drosglwyddo Ased Gymunedol (CAT) Tir Hamdden Tredegar.<br>Nodwyd y cafodd yr adroddiad hwn ei ohirio o gyfarfod blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2019 yn disgwyl gwybodaeth bellach yng nghyswllt y cwestiynau dilynol a ofynnwyd:<br><br>- A yw'r Cyngor wedi ymgynghori gyda Chyngor Tref Tredegar am y CAT?<br>- A yw'r Cyngor wedi dilyn ymarfer cyfreithiol yn nhermau'r ymgynghoriad?<br>- A oes cytundeb cyfamod am y safle?<br>- A fedrid ychwanegu darpariaeth ychwanegol yn y brydles i | |

| | | |
|---|---|---|
| | gwarchod grwpiau defnyddwyr eraill yn defnyddio'r safle?<br><br>Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y bu ymgynghoriad cyffredinol am y Trosglwyddiad Ased Cymunedol yn digwydd ers 2017. Yn ychwanegol, roedd y Cyngor wedi ysgrifennu'n ffurfiol at Gyngor Tref Tredegar ym mis Chwefror 2019 yn gofyn os y byddai'n ystyried CAT posibl ar y safle hwn. Cafodd yr ohebiaeth ei thrafod mewn cyfarfod o Gyngor y Dref ac roedd Cyngor y Dref wedi ymateb gan ddweud na fyddai ganddo ddiddordeb mewn dod yn gyfrifol am y safle ar hyn o bryd.<br><br>Yn nhermau'r cytundeb Siarter rhwng y Cyngor a Chyngor y Dref, nid yw hyn yn gytundeb sy'n rhwymo'n gyfreithiol ac a weithredir yn y gyfraith ond yn ddatganiad bwriad sy'n amlinellu arfer da. Felly, ni chafodd y cytundeb Siarter ei dorri.<br><br>Yng nghyswllt y cyfamod ar y safle, cadarnhawyd na fyddai'r tir yn cael ei roi ond y byddid yn cael ei gadw mewn ymddiriedolaeth elusennol a gellid ychwanegu geiriad ychwanegol yn y brydles i sicrhau fod y sefydliad llwyddiannus:<br><br>• Yn hyrwyddo defnydd a mwynhad y Fangre ar gyfer defnyddiau hamdden a chymunedol er budd y gymuned leol a'r cyhoedd yn gyffredinol ac annog eraill i ddefnyddio'r Fangre (neu rannau ohono) nad yw'r Tenant yn eu defnyddio bryd hynny.<br><br>Cyfeiriodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol at y diffiniad o gytundeb cyfreithiol (contract sy'n rhwymo'n gyfreithiol y gellir ei orfodi mewn llys) a chadarnhaodd y dosberthir y Siarter fel 'datganiad o fwriad' a wneir rhwng y Cyngor a Chyngor y Dref sy'n cofnodi'n ffurfiol sut y byddai'n gweithredu ac ymddygiad bwriadus y ddau barti. Felly, nid oedd gorfodaeth gyfreithiol i'r Siarter.<br><br>Mynegodd Aelod ei bryder na chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad o gwbl am y cynnig CAT yn cynnwys y grwpiau hyn. Dylai ymgynghoriad llawn fod wedi cynnwys Cyngor y Dref a'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol nad oedd wedi eu cynnwys mewn unrhyw agwedd o'r broses ymgynghori.<br><br>Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod Aelodau yn rhan o'r broses benderfynu yng nghyswllt y CAT. Ni wnaed penderfyniad ar | |

y cam hwn ac felly nid oedd unrhyw gynnig i fynd ag ef i ymgynghori arno. Daeth i ben drwy ddweud yr ymgynghorwyd â Chyngor Tref Tredegar yng nghyswllt cynigion CAT.

Dechreuodd Arweinydd y Grŵp Llafur drwy ddweud fod Cyngor y Dref wedi awgrymu y byddent yn ystyried y CAT os nad oedd y proses yn dod i gasgliad. Dywedodd fod Aelodau Tredegar wedi rhagweld cyfleuster chwaraeon cynhwysfawr yn Nhredegar ac yn anffodus nid yw'r adroddiad hwn yn darparu hynny. Felly, ni fedrai gefnogi'r cynnig a byddai'n ymatal rhag pleidleisio. Daeth i ben drwy ddweud y dylai Aelodau fod wedi eu cynnwys yng nghamau dechreuol y trafodaethau hyn gan y gallent fod wedi cynorthwyo, yn neilltuol gan fod ganddynt gysylltiadau da gyda'r ddau sefydliad.

Roedd Aelod arall yn cefnogi barn Arweinydd y Grŵp Llafur ond dywedodd ei fod yn falch i glywed y dylid cryfhau'r brydles ar gyfer defnyddwyr eraill y safle oherwydd po fwyaf o ddefnydd a wneir o'r tir, yr hiraf y byddai'n parhau. Gofynnodd, pe byddai'r CAT yn dod yn aflwyddiannus yn y dyfodol, y dylai fod cyfnod ymyriad cynnar lle ymgynghorid ag Aelodau a bod sefydliadau aflwyddiannus eraill yn cael cyfle i ddod yng gyfrifol am CAT y safle.

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor ddatganiad yng nghyswllt y broses a weithredwyd ar gyfer y CAT a ddechreuodd ym mis Awst 2017 a dywedodd yr hysbyswyd pob parti am CAT, ei ddiben a'r broses. Dywedodd y cafodd mwy na 95% o'r safleoedd eu trin ac yn bennaf fod clybiau yn cydweithio'n effeithiol ac effeithlon ac mewn modd proffesiynol am chwaraeon yn eu hardaloedd.
Pe byddai'r broses wedi cael ei ehangu i gynnwys partïon eraill byddid wedi cyflawni llai na 10% mewn flynedd ac ni fyddai'r CAT unrhyw le'n agos at gael ei gwblhau. Nodwyd y priodolwyd £500,000 o arbedion i broses CAT. Daeth Arweinydd y Cyngor i ben drwy ddweud fod yr opsiwn ar gael i'r Grŵp Llafur gynnig cynnig wedi'i ddiwygio yng nghyswllt y mater.

Atebodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei fod wedi rhagweld cyfleuster chwaraeon i Dredegar ac felly y byddai'r holl Grŵp Llafur yn ymatal rhag pleidleisio ar yr opsiwn.

Cynigiodd Aelod Gweithredol yr Amgylchedd y dylid cymeradwyo Opsiwn 1.

Wedyn cymerwyd pleidlais ar Opsiwn 1 a

| | | |
|---|---|---|
| | PHENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n gysylltiedig â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod) a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:<br><br>- Bod y Cyngor, gan weithredu fel Ymddiriedolwyr Elusennol, yn nodi canlyniad yr apêl a'r broses ail-asesu a fanylir ym mharagraff 2.8 a cynnig Trosglwyddo Ased Cymunedol Safle Hamdden Tredegar i'r ymgeiswyr llwyddiannus a nodir ynddo, yn amodol ar:<br><br>a. Dyfarnu trwydded tri mis/tenantiaeth wrth ewyllys i ganiatáu gweithredu'r safle i'r sefydliad llwyddiannus.<br><br>b. Hysbysebu'r gwarediad prydles arfaethedig mewn adroddiadau cynharach yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.<br><br>**Ymatalodd yr Aelodau dilynol rhag pleidleisio:-**<br><br>**Cynghorwyr D. Bevan, M. Cross, K. Hayden, H. McCarthy, J. Millard, T. Sharrem, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, B. Willis.** | |